

RHAGLEN FODERNEIDDIO YSGOLION: CYNNIG I FODERNEIDDIO YSGOLION CYNRADD GORLLEWIN PEN-Y-BONT AR OGWR

(Cynnig i ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon-y-Felin i ben a sefydlu ysgol newydd, i ddod i rym o 1 Medi 2023 ac i wneud newid rheoledig i Ysgol Y Ferch o'r Sgêr yn ffurf ehangiad i ddod i rym o 2 Medi 2024)

ADRODDIAD AM Y GWRTHWYNEBIADAU

1 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Bwriad yr adroddiad hwn yw eich hysbysu am y gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod ar gyfer gwrthwynebiadau gyda golwg ar y cynnig i foderneiddio ysgolion 'Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr' drwy ddirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon-y-Felin i ben a sefydlu ysgol newydd, i ddod i rym o 1 Medi 2023 ac i wneud newid rheoledig i Ysgol y Ferch o'r Sgêr yn ffurf ehangiad i ddod i rym o 2 Medi 2024.

2. Cefndir

2.1 Rhoddodd y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2021, ganiatâd i ymgynghori'n ffurfiol ynghylch cynnig Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr.

2.2 Er mwyn symud y cynnig yn ei flaen, cynhaliwyd ymarferiadau ymgynghori rhwng 25 Ionawr 2021 a 7 Mawrth 2021 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol. Roedd copi o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn ystod y cyfnod hwn ar wefan y Cyngor:

<https://www.Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk/my-council/equalities-and-engagement/consultations/closed-consultations/Pen-y-bont-ar-Ogwr-west-primary-schools-consultation/>

2.3 Roedd y ddogfen ymgynghori yn gwahodd pobl i gyflwyno barn a safbwyntiau ynghylch y cynnig. Wedi hynny cyhoeddwyd y farn a'r safbwyntiau hyn yn ffurf Adroddiad Ymgynghori. Adroddwyd wrth y Cabinet am ganlyniad yr ymgynghoriad ar 6 Ebrill a rhoddodd ei gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus.

2.4 Yn dilyn hynny cyhoeddwyd hysbysiad statudol yn amlinellu'r cynigion ar 26 Ebrill am gyfnod o 28 niwrnod a gwahoddwyd gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol yn ystod yr amser hwn.

3. Crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol

- 3.1 Gan i nifer o wrthwynebiadau ddod i law yn ystod y cyfnod hwn o hysbysiad statudol, mae'n rhaid yn awr cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r gwrthwynebiadau ynghyd ag ymateb yr awdurdod lleol i'r gwrthwynebiadau. Bydd angen i'r Cabinet ystyried y cynnig yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau. Wedyn gall y Cabinet dderbyn, gwrthod neu newid y cynnig.
- 3.2 Lle mae cynigion awdurdod lleol wedi derbyn gwrthwynebiadau, ac mae angen penderfynu yn eu cylch dan adran 53 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebiadau, sy'n crynhoi'r gwrthwynebiadau statudol, cyn diwedd 7 niwrnod yn dechrau ar y diwrnod y cyhoeddwyd y penderfyniad. Rhydd Atodiad 1 i'r adroddiad hwn fanylion y gwrthwynebiadau a godwyd. Er rhwyddineb cyfeirio, mae'r crynodeb o wrthwynebiadau statudol wedi ei drefnu (isod) drwy grwpio'r materion a godwyd dan gategoriâu pwnc bras – mae ymateb/eglwriad yr awdurdod wedi ei gynnwys dan bob mater a godwyd:

Pryderon yn ymwneud ag ysgol fechan yn symud i ysgol fwy

Nid yw'r awdurdod lleol yn cytuno â'r farn a fynegwyd yn nifer o'r llythyrau o wrthwynebiad yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Afon-y-Felin y byddai symud o ysgol lai i ysgol fwy yn cael effaith negyddol ar safonau addysg neu'n arwain at ysgol fawr gyda phrofiad llai personol i ddisgyblion (lle mae athrawon yn methu â dod i adnabod y plant a'u teuluoedd) neu lle bydd llai o ofal bugeiliol. Mae'n debygol y byddai'r holl staff presennol, ac eithrio pennaeth o bosibl (o Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon-y-Felin) yn trosglwyddo i'r ysgol newydd, ac felly nid yw'n debygol y byddai'r disgyblion yn cael athrawon newydd. Yn y pen draw, corff llywodraethu newydd yr ysgol fyddai'n gwneud yr holl benderfyniadau ynglŷn â staffio, ar gyfer yr ysgol gyfrwng Saesneg newydd arfaethedig.

Er y byddai gan yr ysgol newydd arfaethedig nifer fwy o ddsbarthiadau, sef dau ddsbarth ym mhob grŵp blwyddyn, ni fyddai'r dosbarthiadau unigol yn fwy o ran maint nag ydynt ar hyn o bryd (dim ond y byddai mwy ohonynt). Byddai'r awdurdod lleol yn ceisio cadw 'ethos' presennol yr ysgol fechan yn yr ysgol newydd ac yn cefnogi rheolwyr yr holl ysgolion yr effeithiwyd arnynt ac yn trefnu cydweithredu agos rhwng staff yr ysgolion presennol ymhell cyn y trosglwyddiad er mwyn sicrhau hyn. Mae Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) o'r farn fod y cynnig presennol yn debygol o gynnal safon bresennol o leiaf y ddarpariaeth addysg ar gyfer disgyblion yn yr ardal.

Pryderon ynghylch maint y safle/cyfleusterau

Nid yw'r awdurdod lleol yn cytuno â'r farn a fynegwyd yn nifer o'r llythyrau o wrthwynebiad yn ofni na fydd maint y safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol gyfrwng Saesneg newydd yn ddigon mawr. Mae dadansoddiad 'prawf ffitio' a gynhaliwyd gan reolwyr prosiect a benodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi dangos bod y safleoedd yn ddigon mawr i ddal yr ysgolion unfed ganrif ar hugain arfaethedig. Cafodd y manau a argymhellir yn y Bwletin Adeiladu (Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd) ar gyfer ysgolion cynradd newydd (gan gynnwys pob mathau o rannau o fewn ysgolion cynradd, e.e. manau addysgu, manau crwydro o gwmpas, caeau chwaraeon, cyrtiau chwaraeon, manau chwarae meddal, lleiniau chwarae caled ac, yn bwysig, lle i gynefinoedd) eu cymharu â'r tir sydd ar gael ar y safleoedd er mwyn sicrhau eu bod o faint digonol. Byddai dyluniad yr ysgolion newydd yn unol â safonau dylunio'r Bwletin Adeiladu (ac yn cymryd pethau fel wynebwedd i ystyriaeth, ffensys, plannu, diogelwch a sicrwydd, preifatrwydd, materion amgylcheddol, ynni, awyriad, acwsteg a goleuadau).

Pryderon ynghylch diogelwch/sicrwydd, parcio, seilwaith

Nid yw'r awdurdod lleol yn cytuno â'r farn a fynegwyd yn nifer o'r llythyrau o wrthwynebiad yn ymwneud â diogelwch, sicrwydd a thrafnidiaeth/mynediad ar sail y ffaith y câi'r ysgolion newydd arfaethedig eu hadeiladu gan gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Adeiladu ac yn unol â safonau dylunio'r Bwletin Adeiladu (Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd, sy'n cyfeirio'n benodol at ddiogelwch a sicrwydd). O ran preifatrwydd, byddai'r dyluniad manwl yn cymryd agosrwydd tai i ystyriaeth ac yn cyfeirio'r cyfleusterau er mwyn cynyddu preifatrwydd i'r eithaf ac yn defnyddio datrysiadau dylunio i fod o gymorth i breifatrwydd (megis sgrinio, plannu a ffensys).

Câi'r ysgolion eu dylunio i safon 'sicrwydd drwy gynllunio' a byddent yn cynnwys, er enghraifft, CCTV llawn, system chwistrellu llawn, a ffensys o gwmpas y safle i gyd gyda rheolaeth sicr ar fynediad. Câi mynedfeydd a manau gollwng eu penderfynu yn ystod y cam dylunio manwl, a byddent yn ddiogel ac yn seiliedig ar Asesiad Trafnidiaeth llawn (mae Asesiadau Trafnidiaeth yn ystyried effaith y datblygiad ar bob math o drafnidiaeth, yn gwneud cynigion i leihau effaith y datblygiad ar y rhwydwaith cludiant ac yn hybu mesurau i annog cludiant cynaliadwy a chyfeillgar i'r amgylchedd). Câi unrhyw welliannau angenrheidiol i'r rhwydwaith cludiant (yn cynnwys manau croesi, llwybrau cerdded, llwybrau beicio) a gâi eu nodi yn yr Asesiad Trafnidiaeth eu darparu er mwyn gwneud y cynllun adeiladu newydd arfaethedig yn bosibl.

Fel yr eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd, yr adroddiad ymgynghori a gyhoeddwyd a hefyd yn y 'Cwestiynau a ofynnir yn aml' a gyhoeddwyd ar dudalen gwefan y cynnig – mae'r cynllun arfaethedig yn gynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn cael ei ariannu drwy refeniw ac, fel y cyfryw, ni fydd cynlluniau dylunio manwl yn cael eu llunio gan WEPCo (sef y cwmni cyd-fenter a sefydlwyd

rhwng Partner Cyflawni yn y Sector Preifat ac is-gwmni o Fanc Datblygu Cymru) nes y bydd cyflwyniad MIM Cam 1 wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru. Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad, disgwylir i gyflwyniad Cam 1 gael ei wneud ym mis Mehefin 2021. O ganlyniad, nid oes dyluniadau ysgol manwl yn bodoli ar hyn o bryd.

Yr unig gynlluniau sy'n bod ar hyn o bryd yw cynlluniau terfynau llinell goch a chynlluniau cyfnodol a ddefnyddir gan reolwyr prosiectau Llywodraeth Cymru ar gyfer 'prawf ffitio' y rhannau a argymhellir yn y Bwletin Adeiladu ar gyfer ysgolion yn erbyn y tir sydd ar gael ar y safleoedd. Gan fod rheoliadau MIM Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau prosesau statudol trefniadaeth ysgolion cyn i gyflwyniad MIM Cam 1 gael ei wneud, mae'n amlwg na fyddai fyth yn bosibl darparu cynlluniau manwl ar gyfer unrhyw gynllun MIM ar adeg yr ymgynghoriad. Gall yr awdurdod lleol, fodd bynnag, esbonio ar adeg ymgynghori y safonau a'r rheoliadau ar gyfer dylunio'r adeiladau newydd arfaethedig (fel y mae wedi gwneud) er mwyn i randdeiliaid ddod i farn resymol wybodus ynglŷn â'r cynnig.

Fel y soniwyd eisoes, câi'r mynedfeydd a'r manau gollwng eu penderfynu yn ystod cyfnod y dylunio manwl, a byddent yn seiliedig ar Asesiad Trafnidiaeth llawn.

Cyflwr adeilad ysgol Afon-y-Felin

Mae'r awdurdod lleol yn gwrthod yr anghytundeb a fynegwyd yn nifer o'r llythyrau o wrthwynebiad ynghylch cyflwr adeilad ysgol Afon-y-Felin. Darparwyd ffigur yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw gwerth £525,450 gan syrfewyr proffesiynol a benodwyd gan Adran Landlord Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a graddiwyd cyflwr presennol yr ysgol yn gategori C+ (gwael – yn dangos diffygion mawr a / neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd).

Pryderon ynghylch yr amseriad/y broses

Nid yw'r awdurdod lleol yn derbyn y feirniadaeth a gafodd ei datgan yn nifer o'r llythyrau o wrthwynebiad ynghylch amseriad yr ymgynghoriad. Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i sicrhau y nifer gofynnol o leoedd addas i ddisgyblion yn ei ardal. Roedd yr amserlenni cyffredinol sy'n gysylltiedig â chynnal yr ymgynghoriadau angenrheidiol mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion, sicrhau cymeradwyaeth angenrheidiol Llywodraeth Cymru, sicrhau'r cyllid sydd ei angen ynghyd â dylunio ac adeiladu ysgolion newydd yn golygu bod rhaid cynnal ymgynghoriad rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021 er mwyn sicrhau'r nifer gofynnol o leoedd addas i ddisgyblion ar gyfer yr amser y bydd eu hangen. Roedd yn anffodus, er hynny, bod y pandemig wedi cyd-daro â'r cyfnod ymgynghori.

Awgrymwyd nad yw rhai pobl efallai'n sylweddoli bod y cynnig yn ymwneud ag ysgolion cynradd yng Nghorneli oherwydd y cyfeirir at y cynnig fel 'Ysgolion Cynradd Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr'. Mae'r cynnig, fel y cafodd ei amlinellu yn y ddogfen ymgynghori, yn egluro'r dadansoddiad o ddewisiadau a gynhaliwyd ar gyfer ardal

ddaearyddol ehangach Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi arwain at roi'r cynnig gerbron. Mae'r cynnig felly o angenrheidrwydd wedi ei alw'n 'Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr'. At hynny, mae union oblygiadau'r cynllun wedi cael eu mynegi'n llawn ar bob dogfen a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r cynnig (e.e. mai'r cynnig yw dirwyn Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon-y-Felin i ben a sefydlu ysgol newydd i ddod i rym o 1 Medi 2023 a gwneud newid rheoledig i Ysgol Y Ferch o'r Sgêr yn ffurf ehangiad i ddod i rym o 2 Medi 2024). Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn diffinio'r rhanddeiliaid statudol. Mae'r rhain wedi eu rhestru ar dudalennau 41-42 y ddogfen ymgynghori, a rhoddwyd gwybod iddynt i gyd am y cynnig. Er bod y rhanddeiliaid statudol fel y'u diffinnir gan y Cod wedi cael eu hysbysu'n uniongyrchol am y cynnig (a hysbysiadau cyhoeddus wedi eu harddangos wrth giatiau'r ysgol), ymgymerodd y cyngor hefyd â hybu'r hysbysiad cyhoeddus yn ychwanegol drwy gyfrwng datganiad i'r cyfryngau a thrwy sianelau'r cyfryngau cymdeithasol. Trefnodd y Cyngor hefyd gyfarfod ar wahân i drafod y cynnig â Chyngor Cymuned Corneli.

Mae nifer o'r llythyrau o wrthwynebiad a ddaeth i law fel pe baent yn awgrymu bod eu hawduron yn credu mai ymarferiad pleidleisio syml yw'r broses statudol a bod eu hatebion hwy wedi cael eu rhoi o'r blaen yn y cam ymgynghori. Cafodd y broses statudol a'r amserlen arfaethedig eu hesbonio'n glir ar dudalennau 22-23 y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd. Yn neilltuol, roedd yn datgan,

“Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau ffurfiol; dim ond yn ystod y cam pan gyhoeddir Hysbysiad Cyhoeddus y gall hyn ddigwydd.”

Mae'n bwysig sylweddoli nad ymarferiad pleidleisio syml yw'r broses statudol, ond yn hytrach ei bod yn broses gyfreithiol sydd wedi ei rhagnodi'n fanwl. Nid yw'r hysbysiad cyhoeddus yn gofyn am ddim ond gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol i'r cynnig (h.y. nid yw'n gofyn, i'r gwrthwyneb, am gefnogaeth ysgrifenedig ffurfiol) a safbwyntiau rhanddeiliaid mae'r ddogfen ymgynghori yn eu gwahodd (nid 'pleidleisiau' yr holl rhanddeiliaid) ar y cynnig. Bydd y Cabinet yn ystyried y safbwyntiau a dderbyniwyd ar y cynnig i gyd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin ac yn dilyn hynny bydd yn dod i benderfyniad.

Adeiladu tai yn yr ardal

Mae'r awdurdod lleol yn gwrthod y farn a fynegwyd yn rhai o'r llythyrau o wrthwynebiad a dderbyniwyd mai 'ymarferiad codi arian' yw'r cynnig a'i fod yn cael ei yrru gan ddymuniad i adeiladu mwy o dai yn yr ardal. Mae'r cynnig, fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, yn cael ei yrru'n gyfan gwbl gan yr angen i ddarparu lleoedd addas a digon ohonynt ar gyfer disgyblion. Ni fydd y cyfnewidiad tir a gynigiwyd gyda Valleys to Coast Housing yn cynhyrchu incwm o gwbl i'r awdurdod lleol (dull yn unig ydyw i sicrhau'r safle sydd ei angen ar gyfer datblygu'r ysgol). Bydd unrhyw gynigion ar gyfer adeiladu tai, y bydd Valleys to Coast Housing o bosibl yn ei roi gerbron ar gyfer safle Ysgol Gynradd Afon-y-Felin yn y dyfodol, yn ddarostyngedig i'r gymeradwyaeth gynllunio angenrheidiol (fyddai'n ystyried, ymhlith pethau eraill, yr effeithiau ar y seilwaith lleol).

Dewisiadau gwahanol

Rhoddyd nifer o ddewisiadau gwahanol gerbron yn y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd (e.e. gadael yr ysgolion fel y maent, lleoli'r ysgol gyfrwng Cymraeg rywle arall, gadael Ysgol Gynradd Afon-y-Felin ac Ysgol Gynradd Corneli fel dwy ysgol ar wahân ond diweddar'u'r adeiladau presennol, gwario i foderneiddio'r ysgolion sydd gennym, gadael Ysgol Gynradd Afon-y-Felin allan o'r symudiad a dim ond ei huwchraddio). Fel yr eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae'r tair ysgol bresennol sydd wedi eu cynnwys yn y cynnig yn agosáu at ddiwedd eu hoes fel y cynlluniwyd hwy, mewn cyflwr gwael (yn dangos diffygion mawr a / neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd) ac mae ganddynt ôl-groniad sylweddol iawn o ofynion cynnal a chadw. Yn ogystal â bod mewn cyflwr gwael, ni chafodd yr adeiladau presennol eu dylunio ar gyfer safonau ysgolion yr unfed ganrif ar hugain ac nid ydynt yn benthyg eu hunain i gael eu haddasu felly.

Fel y dywedwyd yn y ddogfen ymgynghori, gwrthodwyd y dewis o adael yr ysgolion presennol fel y maent yn bennaf oherwydd nad yw'r dewis hwn yn gynaliadwy, nad yw'n cwrdd â strategaeth a nodau'r awdurdod ac y byddai'n gosod cenedlaethau o ddysgwyr yn y dyfodol dan anfantais drwy beidio â mynd i'r afael â'r angen am leoedd ysgol i ddisgyblion yn yr unfed ganrif ar hugain. Gallai o bosibl arwain at brinder lleoedd mewn addysg oherwydd y twf a ddisgwyllir mewn tai yn yr ardal. Ar hyn o bryd mae'r ysgolion mewn cyflwr gwael iawn ac nid oes ganddynt y cyfleusterau priodol i gwrdd ag anghenion cwricwlwm modern yn y ffordd orau. Byddai unrhyw ddewis gwahanol, fyddai'n golygu gadael un ysgol neilltuol allan o'r cynnig, yn amlwg yn gosod disgyblion yr ysgol honno dan anfantais am y rhesymau a amlinellwyd uchod. Yn realistig, yr unig safleoedd yn yr ardal sy'n ddigon mawr i ddal yr ysgolion arfaethedig (ar wahân i Gaeau Chwarae Gogledd Corneli, na fyddai'r awdurdod yn dymuno eu defnyddio oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio gymaint gan y gymuned) yw safle Ysgol Gynradd bresennol Corneli a'r tir ym meddiant Valleys to Coast.

Mae'r awdurdod lleol yn gwrthod y farn a fynegwyd fod cynnig Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael ei wneud am fod gan y Cyngor ryw ddyletswydd i ddatblygu ysgol gyfrwng Cymraeg fawr yn yr ardal. Bwriadwyd cynllun Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr fel y cafodd ei gynnis yn syml er mwyn ateb y galw am leoedd i ddisgyblion (cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg) fyddai'n cael ei greu gan y tai posibl yn y dyfodol yn yr ardal gyfagos, er mwyn hybu'r iaith Gymraeg a chynyddu nifer y plant meithrin heb eu cynnal sy'n symud i addysg gynradd gyfrwng Cymraeg. Cynhaliwyd adolygiad cwbl ar wahân ar ardal 'Porthcawl' ac mae cynllun newydd i'r dyfodol ar gyfer ysgol gyfrwng Cymraeg ym Mhorthcawl wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae cynllun arall hollol ar wahân ar gyfer ysgol gyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Ddwyrain Bracla hefyd wrthi'n cael ei ddatblygu.

Câi dodrefn ac offer o'r ysgolion presennol, y byddai'r ysgolion yn nodi eu bod yn angenrheidiol, eu trosglwyddo i'r ysgolion newydd pe bai'r cynnig yn mynd ymlaen. Felly, ni ddylid ystyried unrhyw wariant a wnaed hyd yn hyn, e.e. ar ddisbarthiadau allanol, yn wastraff.

Roedd y dewisiadau ar gyfer ardal Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori yn ffrwyth dadansoddiad o ddewisiadau addysgol a dewisiadau

o safleoedd gan addysgwyr a swyddogion technegol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Eglurwyd y dewisiadau yn Achos Busnes Amlinellol Strategol y cyngor a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, sydd wedi cael ei gymeradwyo.

ATODIAD 1

Gohebiaeth uniongyrchol a dderbyniwyd drwy'r e-bost i [edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk):

Anfonwyd: 06 Mai 2021 14:31

I: EDSU <[edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk)>

Pwnc:

I'r sawl a fynno wybod,

Rwyf yn ysgrifennu i ddweud fy mod yn erbyn uno ysgol gynradd Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr ag ysgol gynradd Afon-y-Felin ac ysgol gynradd Corneli. Fy rhesymau yw bod fy merch yn hoff iawn o'r ysgol a'i holl athrawon. Fe ddewisais Afon-y-Felin yn benodol yn hytrach nag ysgol gynradd Corneli ar ôl cyfarfod y ddau bennaeth. Rydw i'n hoffi'r ffaith fod Afon-y-Felin yn ysgol fechan. Does arnaf i ddim eisiau i'r athrawon golli eu gwaith; rydw i'n meddwl y bydd yn ymyrryd ac yn tarfu ar addysg y plant.

Anfonwyd: 26 Ebrill 2021 19:14

I: EDSU <[edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk)>

Pwnc: Ysgol Afon-y-felin

Rydw i'n dymuno protestio'n gryf yn erbyn cau ysgol Afon-y-Felin a'i huno ag ysgol gynradd Gogledd Corneli er mwyn gwneud ysgol fawr newydd.

Rydw i'n hynod siomedig bod modd i hyn ddigwydd ac ni allaf gredu y byddai neb yn cau Afon-y-Felin.

Mae'n ysgol ffantastig gyda staff cefnogol gwych. Mae'r pennaeth yn ardderchog ac mae hi'n adnabod pob plentyn a'i rieni wrth eu henwau. Mae hi'n rhedeg yr ysgol gyda'r parch mwyaf at bawb ac mae hi'n ysgol fechan wych a dyna'r rheswm y gwnes i ei dewis fel ysgol i'm plant am yr holl rinweddau y mae arnoch chi eisiau eu dileu.

Fe euthum i fy hun i ddwy ysgol gynradd ac uwchradd fawr ac fe wnaeth niwed i'm haddysg am fy mod yn blentyn oedd angen mwy o amser yr athro. Yn yr ysgolion mawr hyn rydych chi'n mynd ar goll mewn dosbarth anferth, - pysgodyn bach mewn pwll mawr. Roedd arnaf i eisiau ysgol wahanol i fy mhlant a dyna pam y dewisais Afon-y-Felin.

Rydw i'n ddig ofnadwy ynghylch y cynnig fel y mae'r rhieni eraill i gyd.

Dydw i ddim yn gwybod pam y byddai arnoch eisiau cymryd ysgol mor werthfawr allan o'n cymuned.

Rydw i yn erbyn hyn yn ofnadwy ac yn fwy dig byth eich bod yn dal i bwysu am fwy o bleidleisiau ar ôl pleidlais fwyafrifol o 56% yn erbyn.

Mae'n amlwg nad oes arnom ni i gyd eisiau i hyn ddigwydd.

Gadewch lonydd i ysgol ac addysg fy mhlant i, os gwelwch yn dda; maent wedi cael digon o newid a tharfu arnynt yn y flwyddyn ddiwethaf gyda'r pandemig.

Mae fy mab yn mynd yn drist iawn wrth feddwl am golli ei ysgol.

Gadewch lonydd i ysgol gynradd Afon-y-Felin, os gwelwch yn dda.

Cofion cynnes

Anfonwyd: 14 Mai 2021 14:37

I: EDSU <[edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk)>

Pwnc: Rhaglen Foderneiddio Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Pnawn da,

Hoffwn wneud y sylwadau canlynol gyda golwg ar Raglen Foderneiddio Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr, os gwelwch yn dda:-

Hoffwn wrthwynebu'r Rhaglen hon i Foderneiddio Ysgolion.

Mae Afon-y-Felin yn ysgol hynod o lwyddiannus, sydd wedi cyrraedd safonau uchel iawn mewn cymaint o feysydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Byddai cau'r ysgol hon yn gollod ofnadwy i'r disgyblion, y staff a'r gymuned. Rydw i'n teimlo bod yr awgrym y bydd yr holl wobrau a llwyddiannau, sydd gan Afon-y-Felin, yn diweddu mewn "Cabinet Gwobrau" mewn derbynfa newydd yn siomedig iawn.

Rydw i'n teimlo nad ydy'r safle a awgrymir ar gyfer yr ysgol newydd yn addas, gyda gerddi cefn ar bob ochr iddo ynghyd â ffordd fynediad wael. Mae Afon-y-Felin mewn man llawer gwell ar hyn o bryd ar safle hardd iawn.

Er nad ydw i'n anghytuno bod angen moderneiddio adeiladau Ysgol Y Ferch o Sgêr ac ysgol gynradd Corneli efallai, dydw i ddim yn ystyried bod Afon-y-Felin yn y cyflwr gwael a ddisgrifir yn yr adroddiad. Byddwn yn awgrymu y gallai unrhyw ddatblygiad a gynllunnir gael ei wneud i foderneiddio'r ddwy ysgol arall a gadael llonydd i Afon-y-Felin. Hefyd, wrth ddarllen yr adroddiad ac o adnabod Afon-y-Felin mor dda, mae'n ymddangos i mi fod yr adroddiad wedi cael ei ysgrifennu i ddylanwadu ar y darlennydd o blaid y rhaglen. Ni allaf yn fy myw ddychmygu sut y maent yn ystyried bod gwerth £525,450 o waith hanfodol i'w wneud yn Afon-y-Felin.

Llawer o ddiolch

Anfonwyd: 21 Mai 2021 08:59

I: EDSU <[edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk)>

Pwnc: Ysgol Afon-y-Felin

Annwyl Foneddigion,

Hoffwn ddweud fy mod yn casáu'r syniad o gau ysgol Afon-y-Felin.

Yn fy marn i, bydd cau ysgol sy'n llwyddo mor dda, gydag adroddiadau canmoladwy Estyn yn anfantais i ddisgyblion presennol Afon-Y-Felin a disgyblion y dyfodol.

Bydd cyflwyno dosbarthiadau mwy o faint mewn ysgol fawr yn cael effaith anffafriol ar addysg y plant, tra ar hyn o bryd mae ganddynt eu lle a chyswllt agos addas rhwng athro a disgybl.

Ystyriwch fy mhleidlais yn erbyn cau'r ysgol, os gwelwch yn dda.

Peidiwch ag oedi rhag anfon e-bost imi os oes arnoch eisiau gwybodaeth ychwanegol.

Yn gywir

Anfonwyd: 20 Mai 2021 20:27

I: EDSU <[edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk)>

Pwnc: Afon-y-Felin

Dydw i ddim yn hapus gyda'r cynlluniau ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd. Mae fy merch yn hoff iawn o'i hysgol, yr holl athrawon a'i ffrindiau a dydw i ddim eisiau ei gweld yn cael ei drysu drwy ei symud i ysgol newydd. Mae Afon-y-Felin yn arbennig i mi ac i dad fy mhlentyn ac fe hoffem ni i'n merch gael tyfu i fyny yn yr ysgol lle y buom ni ill dau. Rydw i wrth fy modd gyda'r ystafelloedd bychain lle nad yw'r dosbarth yn llawn dop o blant ac mae'r plant distaw yn cael cyfle i ddysgu. Yn lle adeiladu ysgol, y mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn anhapus yn ei chylch ac yn ystyried symud eu plentyn i ysgol fechan debyg i'r un y maent ynddi ar hyn o bryd, gwnewch ddefnydd gwell o'r arian!

Anfonwyd: 18 Mai 2021 14:28

I: EDSU <[edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk)>

Pwnc: Afon-y-felin

I'r sawl a fynno wybod

Mae arnaf eisiau ysgrifennu atoch i brotestio yn erbyn y cynllun i gau ysgol gynradd Afon-y-Felin ac uno ysgolion.

Rydw i'n teimlo y byddai hyn yn niweidiol i'r gymuned ac i'r plant sy'n mynychu'r ysgol. Mae ysgol gynradd Afon-y-Felin yn batrwm o ysgol, mae'r athrawon yn rhyfeddol ac yn sicrhau llwyddiannau uchel iawn yn yr ysgol gydag adroddiad ganmoladwy gan Estyn. Rydw i'n teimlo y byddai cau'r ysgol yn gadael twll yn y gymuned ac yn addysg y plant. Mae'r plant wedi cael digon o newidiadau yn y 18 mis diwethaf oherwydd y pandemig ac rydw i'n meddwl y byddai cau'r ysgol yn awr ynghyd â newidiadau yn andwyol.

Mae gen i gyfeillion gyda phlant sy'n mynd i'r ysgol yma ac mae'r plant mor hapus yn yr ysgol gyda'r athrawon a'r adnoddau yno.

Felly rydw i'n protestio'n gryf yn erbyn cau'r ysgol ac yn gobeithio y gwnewch ailystyried a gadael ysgol gynradd Afon-y-Felin fel ag y mae hi'n awr.

Cofion cynnes

Anfonwyd: 18 May 2021 11:01

I: EDSU <[edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk)>

Pwnc: Pleidlais yn erbyn dymchwel Afon-Y-Felin

Derbyniwch yr e-bost hwn, os gwelwch yn dda, fel pleidlais yn erbyn dymchwel ysgol Afon-Y-Felin. Mae ein plant wedi cael digon o gynnwrf gyda'r pandemig heb orfod newid/uno ysgolion. Cafodd y cynnig cyntaf ei ennill eisoes o'n plaid ni ac felly mae gorfod mynd drwy hyn eto yn siomedig iawn. Mae'n annheg ar y rhieni a'r plant. Pe bai'r bleidlais wedi mynd y ffordd arall, fyddem ni ddim yn y sefyllfa hon eto.

Anfonwyd: 01 May 2021 13:18

I: EDSU <[edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk)>

Pwnc: Cadw Afon-y-Felin

Pnawn Da

Rydw i'n anfon e-bost atoch oherwydd fy mod yn erbyn cau Ysgol Gynradd Afon-y-Felin. Rydw i'n credu y dylid gadael llonydd iddi gan ei bod yn ysgol ffantastig. Fe'i dewisais hi i'm plant oherwydd ei bod yn ysgol fechan. Mae hi wedi bod yn rhan o'n cymuned ni ers 45 mlynedd ac fe wnes i a'm brodyr a'm chwirydd fynychu'r ysgol hefyd. Rydw i'n teimlo bod yr athrawon yn gwneud amser ar gyfer ein plant ac yn adnabod eu rhieni hefyd. Fydd hyn ddim yn digwydd mewn ysgol fwy.

Cofion cynnes

Anfonwyd: 15 May 2021 22:15

I EDSU <[edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk)>

Pwnc: Moderneiddio Ysgolion.

Rydw i'n gwrthwynebu'r bwriad i uno ysgol gynradd Corneli gydag Afon-y-Felin ar sail y canlynol:

Mae'r safle a fwriedir ar gyfer yr ysgol Saesneg 2FE fwy o faint sy'n cael ei hawgrymu yn anaddas ac nid yw'n gymwys i'r diben a fwriedir.

Nid oedd y ddogfen ymgynghori yn adlewyrchu sefyllfa wirioneddol Afon-Y-Felin ac roedd yn gwneud i'r holl ysgolion ymddangos fel pe baent yn perfformio yr un fath ac mae hynny ymhell o fod yn wir.

Nid oes arolwg trafndiaeth gwirioneddol am gael ei gynnal hyd nes y cytunir ar y cynnig ac eto nid yw'r holl bryder ynghylch lechyd a Diogelwch yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn ffurfiol ac felly mae'n anwybyddu'r manau lle mae geriach cyffuriau yn destun pryder.

Cau ysgol werdd effeithiol oherwydd na ellir gwneud dim o hyn heb y tir y mae yn sefyll arno.

Anfonwyd: 30 Ebrill 2021 14:31

I: EDSU <[edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk)>

Pwnc: DYWEDWCH NA I GAU - Afon-y-Felin

Annwyl Foneddigion

Ysgrifennaf yn y gobaith y byddwch yn ailystyried cau Ysgol Afon-y-Felin.

Bu fy wyrion a'm wyresau hynaf yn mynychu'r ysgol ac fe wnaethant fwynhau eu blynyddoedd yma. Roeddent yn hapus dros ben, yn fodlon ac yn gyfforddus gyda'r staff a'r pennaeth yn ogystal â chael addysg ardderchog.

Mae fy wŷyr ieuengaf yn mynychu'r ysgol yn awr ac yn hapus dros ben yn yr ysgol gymunedol fechan hon lle mae'r amgylchedd mor gynnes a chyfeillgar. Mae'r holl blant sy'n mynychu wrth eu bodd yma ac mae ganddynt le hyfryd y tu allan ac adroddiad ardderchog gan Estyn. Plentyn swil iawn ydy fy wŷyr ond mae wedi setlo i mewn yn dda. Rydw i'n priodoli hyn i waith caled a natur gyfeillgar y staff a'r pennaeth, Mrs Williams, sy'n trin pob plentyn yn dosturiol. Fe fyddai hyn AR GOLL yn llwyr mewn ysgol fawr – rydw i'n teimlo y byddai hyn yn niweidiol i'r plant a'r rhieni.

Tro fy wyres fydd hi y flwyddyn nesaf i ddod i Afon-y-Felin fel ei brawd a'r cyfan ydw i'n ei ddymuno ydy i'r ddau o'r wyrion ieuengaf fwynhau'r un profiadau ag a gafodd eu cefndryd yn yr ysgol ffantastig hon gyda'r staff rhagorol.

Rydw i'n teimlo bod Afon-y-Felin yn rhan o gymuned Gogledd Corneli ac yn fy marn i NI fyddai ei huno gydag ysgol arall yn lles i'r ysgol, i'r gymuned nac i'r plant yn arbennig.

DYWEDWCH NA I GAU'R YSGOL.

Yn gywir

'Casgliad' o wrthwynebiadau a dderbyniwyd mewn e-bost yn ffurf un pdf oddi wrth Ysgol Gynradd Afon-y-Felin, yn dilyn llythyr a ysgrifennwyd gan lywodraethwr yn yr ysgol ac a anfonwyd at yr holl Lywodraethwyr/staff a rhieni ddydd Gwener, 21 Ebrill, (rhoddwyd llythyrau, llawer ohonynt yn ddiennw, mewn blwch yn nerbynfa'r ysgol ac yn ddiweddarach fe'u casglwyd gan yr ysgol a'u hanfon i [edsu@Pen-y-bont ar Ogwr.gov.uk](mailto:edsu@Pen-y-bont-ar-Ogwr.gov.uk) ar 21 Mai):

Annwyl Lindsay, fel llywodraethwr yn ysgol Afon-y-Felin, rwyf yn erfyn arnoch i beidio â chau'r ysgol. Fel y gwyddoch, ysgol fechan iawn yw hon gyda dim ond 150 o blant. Mae'n rhaid cadw hon ar agor. Diolch i chi!

Does arnom ni ddim eisiau i newidiadau gael eu gwneud yn ysgol Afon-y-Felin yng Nghorneli. Mae arnom eisiau i'r staff i gyd a'r ysgol aros ble maent.

Rydw i'n dymuno arbed ysgol gynradd Afon-y-Felin ac atal unrhyw gynlluniau i gau'r ysgol hon er mwyn uno gydag ysgol gynradd Gogledd Corneli. Syniad gwael ydy hwn. Mae Afon-y-Felin yn ysgol well o lawer ac os oes angen gwneud gwaith ar yr ysgolion eraill, yna gwnewch hynny heb ddymchwel Afon-y-Felin. Mae'n ysgol wych ac mae'r staff yn ffantastig! Dydw i ddim yn cefnogi'r cynnig; gadewch lonydd i Afon-y-Felin.

Arbedwch fy ysgol, os gwelwch yn dda. Rydw i'n hoffi fy athrawon a fy ysgol. Peidiwch â'i thynnu i lawr.

Rydym wedi clywed bod llawer o newidiadau ar fin cael eu gwneud i'r ysgol leol, Afon-y-Felin (ysgol ein plant ni) yng Nghorneli, [fel ei symud i leoliad arall]. Rydym ni yn erbyn hyn, gan fod y plant yn hapus yno, mae hi wedi bod yno ers blynyddoedd lawer ac mae hi'n ysgol ddymunol iawn gyda phobl hyfryd yn gweithio yno, yn athrawon, glanhawyr, staff, staff y gegin (mae'r rhestr yn mynd ymlaen). Dydym ni ddim yn hoffi'r newidiadau a does arnom ni ddim eu heisiau. Trist iawn!

Rydw i yn erbyn uno ysgol gynradd Afon-y-Felin ag ysgol gynradd Corneli oherwydd y byddai'r ysgol hon, yn fy marn i, yn rhy fawr. Rydw i'n teimlo na fyddai'r plant yn cael yr un lefel o ofal a dealltwriaeth ag y maent yn ei dderbyn yn awr. Hefyd, bydd tai yn edrych allan dros yr ysgol a bydd pobl yn gallu gweld eu plant, Ar hyn o bryd mae gan y ddwy ysgol le braf i chwarae y tu allan gyda digonedd o laswellt ac addysgu y tu allan na fyddai ganddynt pe baent yn uno. Yn awr mae'r plant i gyd yn adnabod ei gilydd ac yn helpu ei gilydd os oes yna broblem. Mewn ysgol fwy, fydden nhw ddim yn adnabod pawb ac fe fyddai rhai plant yn ei chael yn anodd ymdopi am ei bod mor fawr. Hyd yn oed er eich bod yn dweud na fydd neb yn colli ei swydd, mae yna rai fyddai yn colli eu swyddi gan na fyddai arnynt angen dwy gogyddes yn yr un gegin ac felly fe fyddai un yn colli ei gwaith. Fyddai yna ddim 2 ofalwr ychwaith.

Yn gywir

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi fy mod yn erbyn cau'r ysgol gynradd yn yr ardal [Afon-y-Felin]. Mae'n ysgol gynradd wych yng nghanol y gymuned. Dangosodd canlyniad y bleidlais [56%] yn glir nad oes ar bobl eisiau'r ysgol newydd hon a llai fyth gau'r ysgol arall yn yr ardal.

Pam newid rhywbeth sy'n gweithio?

Mae Afon-y-Felin yn berffaith fel ag y mae. Mae'r plant wedi setlo. Mae'r plant yn gartrefol yn Afon-y-Felin. Pam tarfu arnynt? Fe ddewisais i'r ysgol hon am ei bod yn fychan ac y bydd fy mhlant yn cael y cymorth y bydd arnynt ei angen.

Rydw i wrth fy modd gyda fy ysgol fel ag y mae hi.

Adeiladu ysgol newydd ar y tir yma. Dim symud tai a lleoedd i gyffuriau.

I'r sawl a fynno wybod.

Rwyf yn ysgrifennu gyda golwg ar y bwriad i gau ysgol gynradd Afon-y-Felin a pham yr wyf yn gwrthwynebu hynny. Mae fy nai ar hyn o bryd yn mynychu'r ysgol ac i'r staff ardderchog y mae'r diolch am hyn, y pennaeth a'r Ysgol Gymunedol fechan hyfryd fel ag y mae. Rydym ni

i gyd yn poeni y byddai'r plant ar goll mewn ysgol fawr ac y byddai'r niferoedd bychain a'r cyffyrddiad personol yn cael eu colli.

Llawer o ddiolch am ystyried hyn. Cofion cynnes

I'r sawl a fynno wybod.

Yn gyntaf, rydw i'n siomedig na chafodd neb yn yr ysgol, yn staff na rhieni, eu hysbysu am ddim o'r cynlluniau hyn cyn iddynt fynd drwodd. Yn ail, fe wnes i fy marn yn glir yn yr arolwg ar-lein ond rydw i'n awr yn ei chyflwyno yn ysgrifenedig. Mae yna nifer o resymau pam nad wyf yn cytuno â'r ysgol newydd, ac un o'r rhain yw y bydd tai yn edrych allan dros y lleoliad. Hefyd, mae Afon-y-Felin newydd wario arian ar ystafell ddosbarth allanol ac rydw i'n gwybod pa mor galed y bu'r PTA yn gweithio i godi'r arian ar ei chyfer ac yn awr bydd y cyfan yn mynd yn wastraff. Yn olaf, rydw i'n cael llawer o drafferth i gael fy mhlentyn 5 mlwydd oed i'r ysgol ac mae ganddi hi lawer o broblemau o ran ei hymddygiad ac yn emosiynol. Ar hyn o bryd mae hi'n cael ELSA. Yn naturiol, rydw i'n poeni y bydd newid yn effeithio arni fwy fyth ac na fydd arni eisiau mynd i'r ysgol o gwbl. Er fy mod i'n meddwl nad ydy ysgol fodern yn beth gwael, rydw i'n meddwl gyda'r pandemig bod yr amser yn hollol anghywir. Mae ein plant ni wedi bod drwy ddigon. Gadewch iddynt fod yn hapus.

Cofion cynnes.

Diolch i chi am eich llythyr yn gofyn am sylwadau neu wrthwynebiadau i raglen moderneiddio ysgolion Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr.

Hoffwn wrthwynebu'r Rhaglen Foderneiddio Ysgolion hon.

Mae Afon-y-Felin yn ysgol hynod o lwyddiannus, sydd wedi cyrraedd safonau uchel iawn mewn cymaint o feysydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Byddai cau'r ysgol hon yn gollod ofnadwy i'r disgyblion, y staff a'r gymuned. Rydw i'n teimlo bod yr awgrym y bydd yr holl wobrau a llwyddiannau, sydd gan Afon-y-Felin yn diweddu mewn Cabinet Gwobrau yn ddychrynlyd. Rydw i'n teimlo nad ydy'r safle a awgrymir ar gyfer yr ysgol newydd yn addas, gyda gerddi cefn ar bob ochr iddo ynghyd â ffordd fynediad wael. Mae Afon-y-Felin mewn lle llawer gwell ar hyn o bryd ar safle hardd iawn. Er nad ydw i'n anghytuno bod angen moderneiddio adeiladau Ysgol Y Ferch o'r Sgêr ac ysgol gynradd Corneli efallai, dydw i ddim yn ystyried bod Afon-y-Felin yn y cyflwr gwael a ddisgrifir yn yr adroddiad. Byddwn yn awgrymu y gallai unrhyw ddatblygiad a gynllunnir gael ei wneud i foderneiddio'r ddwy ysgol arall a gadael llonydd i Afon-y-Felin. Hefyd, wrth ddarllen yr adroddiad ac o adnabod Afon-y-Felin mor dda, mae'n ymddangos i mi fod yr adroddiad wedi cael ei ysgrifennu i ddylanwadu ar y darlennydd o blaid y rhaglen. Ni allaf yn fy myw ddychmygu sut y maent yn ystyried bod gwerth £525,450 o waith hanfodol i'w wneud yn Afon-y-Felin. Gallwn fynd ymlaen ond rydw i'n ceisio cadw'r llythyr hwn yn fyr!

Yn gywir

Annwyl Foneddigion

Hoffwn i chi ailystyried cau Ysgol Gynradd Afon-y-Felin yng Ngogledd Corneli. Mae hi'n ysgol Gymunedol hyfryd, y mae fy nghefnidryd ar hyn o bryd wrth eu bodd yn ei mynychu. Mae pawb yno yn garedig ac yn gyfeillgar a byddai'n drueni ei chau ac adeiladu ysgol enfawr yn ei lle. Gellid gwario'r arian yn well ar adnoddau chwarae y tu allan i'r plant bach ac offer chwaraeon i'r plant cynradd yn Afon-y-Felin.

Yn gywir.

Mae Afon-y-Felin wedi bod yn rhan o'n cymuned leol ers 45 o flynyddoedd. Bob amser yn ysgol wych a chyfeillgar, sy'n gofalu am les y plant yn ogystal â'u haddysg. Fe wnes i fy hun a'm brodyr a chwirydd fynychu'r ysgol hon ac mae ein plant yn mynychu'n awr hefyd. Fe wnaethom ni ddewis Afon-y-Felin i'n plant oherwydd ei llwyddiant ysgubol ers i Ms Williams gymryd drosodd, mae hi ei hun yn ased enfawr i'r ysgol. Mae hi'n bennaeth ymarferol iawn ac yn cymryd amser i ddod i adnabod yr holl blant a'u rhieni. Mae yna lawer iawn, iawn mwy o resymau pam nad oes arnaf eisiau gweld yr ysgol fach wych hon yn cael ei chau i lawr a'i huno ag ysgol arall, Rydym ni angen cadw Ysgol Gynradd Afon-y-Felin i'n rhai bach.

Gyda golwg ar y cynnig i ddirwyn ysgol gynradd Afon-y-Felin i ben, dydw i gant y cant ddim yn cefnogi'r syniad hwn. Mae gen i gannoedd o resymau. Fel yr hen ddywediad, "Pam newid rhywbeth sy'n gweithio?" Mae ein mab wrth ei fodd gyda'i ysgol, ei athrawon a'i gyfoedion. Mae llawer o astudiaethau wedi profi bod grwpiau llai yn cael effaith gadarnhaol ar addysg plant. Os oes gan y cyngor arian i'w wario, dylai edrych ar ei wario'n well ar yr hyn sy'n bendant yn gweithio. Rydym ni'n hapus iawn gyda phethau fel ag y maen nhw ac ni fyddwn yn cefnogi unrhyw gynlluniau i gau ein hysgol ddymunol. Dydw i ddim yn hoffi'r prosiect arfaethedig ac ni fyddwch yn cael fy mhleidlais i symud ymlaen.

I'r sawl a fynno wybod.

Dydym ni ddim yn hapus gyda'r newidiadau yr ydych chi yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr naill ai'n meddwl amdanynt neu yn eu datblygu gyda'r cynlluniau sydd gennych ar gyfer yr ysgol hon. Mae ganddi enw da iawn a hefyd mae hi wedi bod yma ar gyfer ein plant (yn y gorffennol a'r presennol) ers blynyddoedd lawer. Does arnom ni ddim eisiau newid; mae arnom eisiau i'n hysgol aros lle mae hi, yn awr ac yn y dyfodol am flynyddoedd lawer i ddod.

I'r sawl a fynno wybod.

Mae gen i dros 12 mlynedd o brofiad mewn addysg. Rydw i wedi gweld llawer o ysgolion yn cael eu cau er mwyn creu ysgol enfawr. Hyd y gwn i, methiant fu hynny bob tro, Mae athrawon yn cael eu diswyddo, mae nifer y disgyblion ym mhob dosbarth wedi cynyddu. Dydy'r athrawon ddim yn adnabod ei gilydd. Yr unig reswm dros greu'r ysgol fawr hon ydy dibenion ariannol. Yn bendant dydy hi ddim er budd y disgyblion na'r staff addysgu. Mae fy

mhlentyn i'n mwynhau'r strwythur bychan gyda'r niferoedd isel o ddisgyblion ymhob dosbarth a staff sy'n gweithio fel tîm.

Dymuniadau gorau.

Annwyl Syr, Madam,

Hoffwn gyflwyno fy safbwynt o ran datblygiad arfaethedig ysgol fawr yng Ngogledd Corneli. O'm rhan fy hun, ni allaf ddweud bod y cynnig hwn o ysgol enfawr yn apelio ataf i oherwydd nifer o ffactorau yr hoffwn eu mynegi. Un o'm pryderon pennaf ar hyn o bryd ydy nad oes ar Ogledd Corneli fel cymuned angen un ysgol fawr. Un o fanteision yr ardal ydy bod llawer o ysgolion ardderchog o fewn cyrraedd yn lleol, y gall y rhieni ddewis anfon eu plant iddynt. Fodd bynnag, wrth greu'r ysgol enfawr hon, mae'r rhieni yn cael eu hamddifadu o'r dewis ac rydw i'n ofni y bydd llawer yn dewis anfon eu plant i ysgolion gerllaw yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i'w plant fynychu'r ysgol a ddewiswyd ganddynt. Mae Afon-y-Felin yn ymhyfrydu yn y ffaith mai ysgol gymunedol fechan ydy hi, lle mae'r staff wedi gweithio'n ddiflino i gyrraedd safonau ardderchog o addysgu, dysgu a meithrin disgyblion ac er bod y cyngor yn dweud mai ei nod ydy cynnal ethos yr ysgol fechan yn yr ysgol newydd fwy o faint, nid felly y bydd hi. Rydw i'n gwybod na fydd gweithio fel aelod o staff lluosog gyda nifer fwy o ddisgyblion yn sicrhau hyn, dim tebyg i'r berthynas yr ydym ni wedi ei datblygu. Rydym ni'n adnabod ein plant yn drwyadl ac maen nhw'n cael eu parchu i gyd fel unigolion ac mae eu hanghenion yn cael sylw arbennig. Rydw i'n credu y bydd ysgol fwy yn esgor ar fwy o broblemau ymddygiad gyda rhai disgyblion fydd yn cael eu hanwybyddu a'u colli o fewn y system. Efallai na fydd y staff yn cael eu hystyried ond fel rhif, ac nid fel aelod o dîm neu ran o deulu'r ysgol. Dydy ysgolion bach ddim yn amhoblogaidd; rydym ni eisoes yn gwrthod disgyblion oherwydd bod y lleoedd wedi cael eu dyrannu. Mae'r ysgol fawr hon yn ymddangos i mi fel ymarferiad i arbed arian yn unig. Pryder mawr arall sydd gennyf ydy bod y cynnig hwn wedi cael ei ruthro drwodd heb lawer o gyfle i ymgynghori'n llawn â'r gymuned ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ar ôl methu â sicrhau tir o'r blaen mewn safle a gynigiwyd ym Mracla ar gyfer ysgol o'r fath oherwydd gwrthwynebiad lleol ac adlach y gymuned. Rydw i'n teimlo bod y cynllun hwn yn awr wedi symud i Ogledd Corneli (oherwydd bod ysgol gynradd Gymraeg yno'n barod) er mwyn cyflawni'r nod hon. Oherwydd y gwrthwynebiad ffyrnig i adeiladu ysgol yn un o fannau gwyrdd Bracla, mae'r cyngor yn awr yn rhuthro a dim ond yn ddiweddar y mae cyngor cymuned Gogledd Corneli wedi cael gwybod am y cynlluniau datblygu [gan ddarganfod y wybodaeth yr un adeg ag y gwnaeth y staff ar y cyfryngau cymdeithasol] ac ni fyddant yn gwybod yn iawn nes y bydd yn rhy hwyr. Ydych chi wedi gofyn am farn y trigolion i gyd sy'n byw ar safle arfaethedig yr ysgol? Tybiaf fod cryn nifer o'r trigolion nad ydynt yn gwybod dim am hyn ac mae ei effaith y tu hwnt i'm gwybodaeth i. Mae tai yn edrych dros y safle o bob cyfeiriad. Rydw i'n bryderus iawn ynglŷn ag amddiffyn plant mewn lle mor gyfyng ac yn dyfalu sut y cafodd hyn ei awgrymu fel syniad da. Hefyd, bydd adeiladau ar holl dir yr ysgol ac ar yr unig lecyn gwyrdd sydd yno, sy'n golygu y bydd tir yr ysgol dan adeiladau. Pa fath o esiampl gadarnhaol mae hyn yn ei osod i'n plant, i genedlaethau'r dyfodol, y gall ein hamgylchedd gael ei gloddio ac adeiladu arno? Mae'r tir yn ysgol gynradd Afon-y-Felin yn hardd ac mae cymaint o gyfle i ddysgu am ddinasyddiaeth a'r amgylchedd. Pe bai'r ysgol enfawr yn mynd yn ei blaen, yna yn sicr byddai hwn yn safle llawer gwell i adeiladu arno gan nad oes dim yn edrych allan drosto (fyddai'n osgoi problemau amddiffyn plant/iechyd a diogelwch) yn ogystal â chaniatáu i blant gael mynediad at natur, bywyd gwyllt a'r

amgylchedd. Eto nid plant ac addysg sy'n gyrru cynlluniau mawr BCBC yn ganolog, ond arian! Mae'r tir yn Afon-y-Felin eisoes wedi ei glustnodi ar gyfer tai, gan fod hyn wedi ei grybwyll gan swyddogion datblygu wrth gyngor disgyblion ein hysgol. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn datgan bod yr ysgolion mewn cyflwr adfeiliedig bron ac nad ydy'r adeiladau'n addas. Dydy hyn ddim yn wir. Gellid ymestyn yr ysgol ei hun neu ei moderneiddio i greu ysgol well fyth, heb yr angen i'w thynnu i lawr. Yn olaf, er bod datblygiad arfaethedig yr ysgol enfawr newydd yn gobeithio y bydd holl contractau'r staff yn cael eu hanrhydeddu, byddwch yn achosi cynnwrf mawr a llawer o ansicrwydd i'r rheiny sy'n gweithio yn yr ysgol nes i'r ysgol newydd gael ei chwblhau. Mewn cyfnod mor ofnadwy yn ariannol p'un bynnag, byddwch yn dadlau yn erbyn pobl gyda phroffesiynau a bywoliaethau tra mae llawer o staff yn bryderus ynghylch eu contractau, gorfod ailymgeisio am eu swyddi a hefyd colli allan neu golli cyfleoedd am y bydd mwy o gystadleuaeth am y swyddi y maent hwy yn eu cyflawni eisoes i safon uchel. Mae cymaint o contractau gwahanol eisoes ymhlith yr ysgolion. Bydd un aelod o staff o leiaf yn colli ei swydd (pennaeth) er iddi sicrhau rhagoriaeth i ddisgyblion tra'n codi ysbryd y staff a'u henw fel pobl broffesiynol werthfawr. Byddai'n gas gen i weld ei holl waith caled a'i hymroddiad yn cael ei anwybyddu. Ystyriwch dull mwy gonest ac agored gyda chymuned gogledd Corneli, os gwelwch yn dda, a'r bobl hynny y bydd y cynnwrf dianghenraid hwn yn effeithio arnynt a dinistrio ysgolion sydd eisoes yn cyrraedd safonau ffantastig ar gyfer disgyblion ynghyd â rhoi cefnogaeth i'w teuluoedd. Rydw i'n teimlo y dylai'r Cyngor ganolbwyntio eu diddordebau ar orffen cynlluniau sydd eisoes yn eu lle ar gyfer ysgolion eraill a dyna pam yr ydw i wedi codi'r pryderon hyn ac mae'n sicr y bydd llawer o bobl eraill yn teimlo'r un fath. Peidiwch â dadwneud enw da ein hysgol, y gwaith caled, yr ymroddiad a'r llwyddiannau er mwyn cyflawni galw dianghenraid am ysgol newydd.

Cofion cynnes.

Mae Afon-y-Felin yn wych fel y mae. Yn lle gwario'r holl arian yna, pam na wnewch chi ei rannu rhwng yr ysgolion ar gyfer gwneud gwelliannau. Mae Afon-y-Felin y maint perffaith i ysgol gynradd ar gyfer ein pentref ni. Caeau chwarae o faint gwych hefyd.

Dylai Afon-y-Felin aros fel y mae hi. Mae ein plant yn hapus. Ysgol fechan wych, perffaith i'n pentref ni. Pam ei newid hi ar ôl 45 mlynedd?

I ddechrau rwyf yn ymddiheuro fod hwn mor hwyr a hefyd am ei hyd. Fodd bynnag, roeddwn i'n teimlo bod angen i mi esbonio yn union sut yr oeddwn yn teimlo ynghylch uno'r ysgolion fel y bwriedir, a'n taith ni gydag Afon-y-Felin. Fe wnaethom ni symud i'r ardal yn 2009 a chychwynnodd fy mab hynaf yn ysgol gynradd Corneli gan ei bod wedi cael ei hargymell fel yr ysgol orau. Nid af i fanylion mawr am ei gyfnod byr yno ond roedd y profiad yn ofnadwy. O fewn blwyddyn symudais ef. O fewn cyfnod o ddim ond deng mis aeth fy mab o ddosbarth o ychydig o blant oedd ag anawsterau dysgu / anghenion emosiynol i mewn i ddosbarth prif ffrwd. Roedd y staff yn rhyfeddol ac yn tynnu'r gorau allan ohono ym mhob ffordd bosibl. Dros y blynyddoedd rydw i wedi gweld llawer o blant yn mynd drwy ddrysau Afon-y-Felin gyda phump o blant yno ar hyn o bryd ac un yn 'pound' (?). Rydw i wedi rhannu cymaint o emosiynau gyda'r holl athrawon a'r ISO's, maent wedi bod yn wych gyda fy mhlant i gyd. Mae'r staff i gyd wedi gwybod enwau fy mhlant hyd yn oed cyn iddynt ddechrau yno. Mae

pob athro'n adnabod pob plentyn yn yr ysgol. Rydw i'n gwybod, yn drist, nad hyn fydd y sefyllfa os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen. Mae gan dri o fy mhlant anabledau, mae'r staff bob amser wedi gwneud trefniadau ar eu cyfer a gofalu amdanynt ym mhob ffordd bosibl. Bob amser yn eu hannog i gwffio'u poen. Mae gan fy mhlentyn 8 mlwydd oed anawsterau dysgu ac mae'n hwyr o ran llefaru ac iaith. Mae ei athrawon, Mrs Hill a Miss Williams, yn ei annog ac yn ei helpu ym mhob ffordd bosibl. Ar hyn o bryd mae'n delio â phryder ofnadwy oherwydd y cyfnodau clo ac mae'n ymdrech ei gael i'r ysgol. Eto mae'r staff wedi bod yn gymorth, gan wneud y cyfan a allant i'w helpu. Rydw i gymaint o ofn os bydd yr ysgol newydd yma yn mynd yn ei blaen na fydd ef yn mynychu o gwbl. Dydy fy mhlentyn ddim yn gallu ymdopi â newid ac fe fydd hyn yn anferth iddo ef. Rydw i'n teimlo'n fawr nad ydy'r plant yn cael eu hystyried yn hyn i gyd, y cyfan y mae arnynt ei eisiau ydy Afon-y-Felin ar gyfer adeiladu tai ac mae'r golau ar arwyddion y bunt. Maent yn ceisio darlunio'r peth yn nhermau yr ysgol fawr newydd er mwyn twyllo pobl. Mae Afon-y-Felin y cyfan fydddech chi'n dymuno ei gael mewn ysgol a mwy. Nid unrhyw ysgol ydy Afon-y-Felin, mae'n lle diogel braf iawn i'n plant ac rydw i'n ymddiried ym mhob un aelod o'r staff o fewn yr ysgol gyda fy mhlant. Maent yn dîm gwirioneddol wych.

Cofion cynnes

Rydw i'n ysgrifennu'r llythyr hwn i ddweud fy mod yn erbyn prosiect yr ysgol newydd, mae ei lleoliad yn fychan iawn, fflatiau a thai o gwmpas yr ardal i gyd. Rydw i'n meddwl bod rhoi'r arian tuag at weithgareddau gwell i blant yn bwysig iawn megis cynlluniau chwarae a lleoedd yn yr awyr agored yn hytrach na mwy fyth o dai.

Yn gywir.

I'r sawl a fynno wybod.

Rydw i yn erbyn prosiect yr ysgol newydd drwy uno ysgolion cynradd Afon-y-Felin a Corneli. Rydw i'n credu bod y tir yn rhy fychan i ddarparu lle ar gyfer cymaint o blant, gyda fflatiau a thai wedi eu lleoli mor agos a gerddi pobl. Rydw i'n teimlo.....cae i chwarae a rhedeg ac mae ganddynt staff anhygoel ac maent wedi gweithio'n galed i gael gradd wyrdd. Byddai hyn yn arwain at golli gwaith a gorfod ailymgeisio am swyddi. Byddai mwy o fwlio a gellid gwario'r arian i wella lleoedd chwarae a mannau awyr agored yn yr ardal.

Yn gywir

Annwyl foneddigion,

Rydw i'n ysgrifennu yn y gobaith y gwnewch ailystyried cau ysgol Afon-y-Felin. Mae fy wyrion a wyresau hynaf wedi mynychu'r ysgol hon ac wedi mwynhau eu blynyddoedd yma. Roedden nhw'n hapus dros ben, yn fodlon ac yn gyfforddus gyda'r staff a chawsant addysg wych yn ogystal. Mae fy ŵyr ieuengaf yn mynychu'r ysgol yn awr ac yn hapus dros ben yn yr Ysgol Gymunedol fechan hon lle mae'r amgylchedd mor gynnes a chyfeillgar. Mae'r holl blant sy'n mynychu wrth eu bodd yma yn ogystal â bod ganddynt le eithriadol y tu allan. Mae fy ŵyr yn blentyn swil iawn ond mae wedi setlo i mewn yn dda. Rydw i'n priodoli hyn i'r ffaith fod y staff a'r pennaeth a'r rhieni yn gweithio'n galed ac yn gyfeillgar. Y flwyddyn nesaf daw

tro fy wyres i ymuno ag Afon-y-Felin fel ei brawd a'r cyfan yr ydw i'n ei ddymuno ydy i'r ddau ieuengaf o'm hwyrion gael mwynhau yr un profiadau ag a gafodd eu cefndryd yn yr ysgol wych hon gyda'r staff rhagorol. Rydw i'n teimlo bod Afon-y-Felin yn rhan bwysig o gymuned gogledd Corneli ac yn fy marn i ni fyddai ei huno ag ysgol arall yn lles i'r ysgol, y gymuned nac i'r plant yn arbennig.

Yn gywir.

Sylwadau a dderbyniwyd gan Gyngor Cymuned Corneli:

Annwyl Mr Harvey

Cynigion ar gyfer Darparu Ysgol Gynradd yng Nghorneli

Sylwadau Cyngor Cymuned Corneli

Mae'r Cyngor Cymuned yn ddiolchgar i aelodau a swyddogion y Cyngor am gyfarfod â hwy ar y 12fed o Fai, i drafod cynigion ar gyfer darparu ysgol gynradd yng Nghorneli. Mae'r cyngor cymuned yn derbyn bod angen ysgol newydd yng Nghorneli ac nid yw uno'r ddwy ysgol gynradd bresennol yn broblem iddynt. Mae'r rhesymau dros adeiladu ysgol newydd a'r materion ariannol dan sylw hefyd yn cael eu cydnabod. Fodd bynnag, mae gan y cyngor cymuned amheuan difrifol o hyd ynghylch addasrwydd safle'r ysgol newydd a pha mor ddigonol fu'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gyda golwg ar y cynigion. Mae'r aelodau'n teimlo bod pennawd yr ymgynghoriad yn amwys ac nad oedd yn tynnu sylw trigolion Corneli'n ddigonol at bwysigrwydd yr ymgynghoriad hwn. Roedd y pennawd 'Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr' yn gamarweiniol dros ben, er gwaethaf y rhesymau a roddwyd yn y cyfarfod diweddar dros ei ddefnyddio. Teimlo mae'r aelodau nad oedd yn caniatáu ymgynghori iawn a chyfranogaeth gan aelodau o'r gymuned oedd â diddordeb. Mae'r methiant hwn i sicrhau ymgynghoriad priodol yn debygol o achosi i drigolion, sy'n byw yn union ardal yr ysgol arfaethedig, beidio â chael y cyfle i wneud sylwadau ar yr helbul y bydd rhaid iddynt ei ddiodef yn ystod y broses adeiladu, yn ogystal â'r tagfeydd / trafndiaeth (yn foduron ac yn gerddwyr) y bydd yn rhaid iddynt fyw gydag ef yn ystod amseroedd agor/cau'r ysgol a phroblemau sŵn drwy'r dydd. Mae aelodau yn gwybod yn bersonol am nifer fawr o drigolion sydd wedi cadarnhau nad oeddent yn gwybod am yr ymgynghoriad.

Parhad/.....

Gyda golwg ar faint y safle. Mae gan y cyngor cymuned amheuan dybryd o hyd ynghylch addasrwydd y safle ar gyfer darpariaeth ysgol gynradd 'addas i'r diben' yn yr unfed ganrif ar hugain ar gyfer Corneli, er gwaethaf y wybodaeth a roddwyd yn y cyfarfod diweddar. Cydnabyddir sylwadau'r Cyngor ynghylch darparu lle gwyrdd ar safle arfaethedig yr ysgol. Fodd bynnag, mae'r cyngor cymuned yn dal yn bryderus na chaiff y lle gwyrdd sy'n cael ei fwynhau gan y ddwy ysgol ar hyn o bryd ei ddarparu ar y safle arfaethedig. Ar hyn o bryd mae'r ddwy ysgol yn sefyll ar safleoedd gwledig gyda lleoedd gwyrdd estynedig; mae'r safle

arfaethedig mewn man sy'n cael ei amgylchynu gan dai ar bob ochr o fewn yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel amgylchedd trefol, a gallai gael effaith niweidiol ar iechyd meddwl a lles. Er gwaethaf y sicrwydd bod yna gyllideb o £3 miliwn ar gael i ddatblygu unrhyw addasiadau i'r ffordd fawr fyddai eu hangen i sicrhau mynediad digonol a diogel i mewn ac allan o'r ysgol, nid yw'r cyngor cymuned yn teimlo y byddai'r seilwaith o gwmpas y safle arfaethedig yn benthyg ei hun i'r addasiadau fyddai'n angenrheidiol. Mae'r strydoedd sy'n arwain at y safle yn gul dros ben ac ni fyddent yn caniatáu y math o addasiadau ffordd fyddai eu hangen i ddarparu ar gyfer y cynnydd mewn cerbydau sy'n anorfod yn nodweddu ardaloedd lle mae ysgolion wedi eu lleoli.

Hoffai'r cyngor cymuned ofyn am wybodaeth ynghylch cyfanswm maint y safleoedd y mae Ysgol Gynradd Corneli ac Ysgol Gynradd Afon-y-Felin yn sefyll arnynt, ynghyd â maint y safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol newydd. Byddai'r wybodaeth hon yn galluogi'r aelodau i geisio dychmygu'r cynigion, cyn i gynllun manwl ddod ar gael.

Yn olaf, mae'r aelodau'n teimlo, hyd nes y bydd cynllun manwl o'r ysgol arfaethedig yn ei lle ar gael, nad yw'n bosibl mynd i'r afael â'r pryderon a ddisgrifiwyd uchod yn ddigonol ac felly ffurfio barn wybodus ynglŷn â'r cynigion.

Cofion